Ein cyf: CH18-004

Tŷ Cambria / Cambria House
29 Heol Casnewydd / 29 Newport Road
Caerdydd / Cardiff
CF24 0TP / CF24 0TP

E-bost/Email:
Diane.McCrea@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk
Diane.McCrea@naturalresourceswales.gov.uk

Ffôn/Phone:
0300 065 4453

David J Rowlands AC
Cadeirydd, y Pwyllgor Deisebau
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

27 Mawrth 2018

Annwyl David,

**'Deiseb P-05-785 Atal Trwydded Forol 12/45/ML i ollwng gwaddodion morol ymbelydrol o safle niwclear Hinkley Point i ddyfroedd arfordirol Cymru oddi ar Gaerdydd'**

Yn dilyn fy llythyr dyddiedig 22 Ionawr 2018, gallaf bellach fynd i'r afael â'r pwyntiau sy'n weddill a godwyd yn eich llythyr gwreiddiol dyddiedig 12 Ionawr.

**Samplu gwaddod**

Er mwyn rhoi sicrwydd i'r cyhoedd, gwnaethom ofyn i Ganolfan Gwyddorau'r Amgylchedd, Pysgodfeydd a Dyframaethu (Cefas) gynnal dadansoddiad dos ymbelydredd o samplau 2009, gan fod y dadansoddiad hwn wedi'i wneud ar samplau o 2013 a 2017; mae'r gwaith hwn bellach wedi'i gwblhau. Yn ogystal â'r cyngor arbenigol a ddarparwyd gan Cefas, gwnaethom ymgynghori ag Iechyd Cyhoeddus Cymru ac arbenigwr mewnol Cyfoeth Naturiol Cymru ynglŷn â chanlyniadau dadansoddi'r dos. Daeth yr asesiad i'r casgliad bod y gwerthoedd ar gyfer aelodau o griwiau carthu unigol, y cyhoedd a chyfanswm y dos casgliadol o fewn y meini prawf *de minimus* yn ôl y weithdrefn asesu ymbelydrol generig a ddatblygwyd gan yr Asiantaeth Ynni Atomig Ryngwladol (IAEA). Felly, mae'r canlyniadau, yn seiliedig ar ddadansoddiad Cefas a meini prawf IAEA, yn dangos nad yw'r deunydd yn peri unrhyw berygl ymbelydrol i iechyd dynol na'r amgylchedd.

Rydym hefyd wedi cwblhau ein hasesiad o'r gyfres o samplau a gyflwynwyd i ni ym mis Tachwedd 2017. Cafodd yr adroddiad a'r casgliadau eu llunio gan Cefas a gwnaethom hefyd gynnal ymgynghoriad technegol gydag Iechyd Cyhoeddus Cymru ac arbenigwyr Cyfoeth Naturiol Cymru gan ddefnyddio'r un canllawiau rhyngwladol â'r samplau blaenorol.

Roedd y canlyniadau cemegol ac ymbelydrol o fewn y terfynau derbyniol ac rydym yn fodlon nad oes unrhyw beryglon i iechyd dynol na'r amgylchedd.

Yn dilyn eich cais, gwnaethom hefyd ofyn i ddeiliad y drwydded ystyried samplu dwfn gwirfoddol pellach. Fodd bynnag, yn dilyn canlyniadau'r samplau a gymerwyd yn 2009, 2013 a 2017, ni ystyrir ei fod yn angenrheidiol gan nad oes unrhyw sail wyddonol dros unrhyw samplu ychwanegol. Yn anffodus, nid yw hynny'n rhywbeth y gallwn ei ail-ystyried drwy'r drwydded na'i amodau.

Felly rydym wedi cymeradwyo amod 9.5 o'r drwydded forol yn ffurfiol. Fodd bynnag, mae amod pellach o ran monitro'r safle y mae angen i ddeiliad y drwydded ei gyflawni cyn y bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn rhoi cymeradwyaeth ysgrifenedig cyn y gall y gweithgaredd gwaredu ddechrau.

Bydd ein tudalen gwefan benodedig (dolen isod) yn cyhoeddi'r penderfyniadau rydym yn eu gwneud a darparu diweddariadau amserol, gan gynnwys testun dogfennau allweddol i'w lawrlwytho.

**Dadansoddi ymbelydredd**

Cawsom yr amrediad llawn o radioniwclidau a brofwyd/sgriniwyd oddi wrth Cefas ac rydym wedi rhoi'r wybodaeth hon ar dudalen bwrpasol ar ein gwefan: www.cyfoethnaturiolcymru/GwarediadGwaddodCardiffGrounds.

**Safleoedd samplu ac astudiaethau gwasgaru**

Mae Cefas wedi darparu gwybodaeth ynglŷn â symudiad gwaddod a waredwyd yn Cardiff Grounds, ac mae'r ohebiaeth hon ynghlwm er mwyn eich cynorthwyo.

Mae samplu amgylcheddol Aber Hafren ar gyfer radioniwclidau hefyd yn cael ei gynnal fel rhan o raglen Ymbelydredd mewn Bwyd a'r Amgylchedd (RIFE) a gynhelir ar y cyd gan reoleiddwyr y DU. Mae hon yn rhaglen fonitro estynedig sy'n mesur radioniwclidau yn yr awyr, dŵr, pridd a deunyddiau bwyd ac mae'n rhaglen annibynnol i wirio monitro, gan ategu'r monitro amgylcheddol y mae rheoleiddwyr yn gofyn i safleoedd niwclear a ganiateir ei gyflawni ac adrodd yn ôl i ni yn y DU. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn un o bartneriaid y rhaglen hon.

Cynhelir y rhaglen annibynnol hon bob blwyddyn a'i chyhoeddi bob mis Hydref. Yr un ddiweddaraf yw Rhif 22, sy’n cwmpasu samplu yn 2016, a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2017.

https://www.gov.uk/government/publications/radioactivity-in-food-and-the-environment-rife-reports-2004-to-2016


Mae cyfeiriadau allweddol at y rhaglenni monitro ger gorsafoedd pŵer niwclear Hinkley (A, B a C) gan gynnwys yr aber yn yr adrannau canlynol:

T122, A 4.6
T146 Tabl 4.7b

Yn ogystal â'r samplu amgylcheddol blynyddol a gynhelir ar gyfer y rhaglen Ymbelydredd mewn Bwyd a'r Amgylchedd, yn 2016, gwnaeth Asiantaeth yr Amgylchedd hefyd ymgymryd â rhaglen samplu gwaddod ychwanegol ar Afon Parrett gerllaw. Caiff y gwaith hwn ei gynnwys yn yr adroddiad yn yr Adran ar gyfer Hinkley. (4.6)

Gobeithiaf fod yr atebion uchod yn ateb yr ymholiadau a oedd yn weddill gennych. Mae croeso i chi gysylltu â mi os oes gennych unrhyw ymholiadau pellach.

Yn gywir,



**Diane McCrea MBE**

**Cadeirydd, Cyfoeth Naturiol Cymru**
**Chair, Natural Resources Wales**